# Y Pwyllgor Busnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 30 Ebrill 2013** |
| Amser: | **08:30 - 08:45** |

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Lesley Griffiths**<br>**William Graham**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Virginia Hawkins, Pennaeth Pwyllgorau Cynulliad dros dro**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nodwyd y cofnodion gan y Pwyllgor ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3. Trefn Busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Rhoddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch newidiadau i fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth a

dydd Mercher, gan gynnwys y cynnig i ad-drefnu'r cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau.

Nododd y Pwyllgor Busnes na chynhelir cyfnod pleidleisio ddydd Mawrth ac y bydd yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3(ii) Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor yr amserlen 3 wythnos ar gyfer Busnes y Llywodraeth.

3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu'r eitemau o fusnes a ganlyn:

**Dydd Mercher 22 Mai 2013**

- Dadl ar Araith y Frenhines (120 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar y cynllun buddsoddi-i-arbed (60 munud)

O ystyried y cyd-destun cyfansoddiadol sy'n datblygu a'r ffaith bod gan y Cynulliad bwerau deddfu llawn bellach, cytunodd y Pwyllgor Busnes mai dim ond dadl a gaiff ei chynnal ar Araith y Frenhines eleni, yn unol â'r Rheolau Sefydlog. Cytunodd y Rheolwyr Busnes hefyd y byddant yn adolygu gweithdrefnau'r flwyddyn hon ar ôl 22 Mai ac efallai y byddant yn adolygu'r Rheol Sefydlog cysylltiedig.

## 4. Deddfwriaeth

4(i) Cynigion Cymhwysedd Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru - rhaglen ddeddfwriaethol y DU ar gyfer 2012-2013 (Ail Sesiwn Seneddol)

Nododd y Pwyllgor Busnes y papur gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt pob Bil, gan gynnwys y rhai ar ffurf drafft a Biliau ar eu ffurf terfynol, a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines 2012 ar gyfer yr ail sesiwn Seneddol.

**UNRHYW FATER ARALL**

**Newidiadau i'r amserlen gyflwyno oherwydd Gŵyl y Banc**

Nododd y Rheolwyr Busnes oherwydd Gŵyl y Banc ddydd Llun 6 Mai 2013, bydd yr amserlen gyflwyno ar gyfer busnes y Cyfarfod Llawn ar 7 a 8 Mai yn newid - gan symud y dyddiadau cau ymlaen o un diwrnod yn unol â hysbysiadau'r Swyddfa Gyflwyno.

**Cyfarfod ychwanegol**

Nododd y Rheolwyr Busnes y bwriedir cynnal cyfarfod ychwanegol y Pwyllgor Busnes ar 3 Mehefin 2013.

**Fforwm Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad/y Swyddfa Gyflwyno/ y Siambr**

Rhoddodd y Rheolwyr Busnes gymeradwyaeth i Fforwm Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, y Swyddfa Gyflwyno a'r Siambr a gyfarfu yr wythnos ddiwethaf yn dilyn adborth gan staff swyddfa'r grwpiau.